# Bwriad Llywodraeth Cymru i Gofrestru ac Archwilio Gwaith Ieuenctid Mewn Eglwysi.

Mehefin 2016

## Cyd-ddatganiad a galwad i weithredu.

Mae rhoi gorfodaeth ar eglwysi yng Nghymru i gofrestru cyn eu bod yn cael yr hawl gyfreithiol i helpu plant i ddysgu'r gwerthoedd Cristnogol y cafodd ein cymdeithas ei hadeiladu arnynt yn gyfyngiad anghyfiawn ar ryddid crefyddol. P'un ai gosod y trothwy ar 6 awr neu uwch, mae'r egwyddor o wahardd "eglwysi anghofrestredig" rhag dysgu'r efengyl i blant yn orgyrraedd annerbyniol gan y wladwriaeth.

Dywed Llywodraeth Cymru na fydd eglwys yn cael ei harchwilio yn ol eu "gwerthoedd hanfodol" oni fydd cwyn yn ei herbyn. Er hynny, mae'r posibiliad o gwynion blinderus yn sylweddol yn yr hinsawdd seciwlariaeth ymosodol bresennol. Profiad rhai ysgolion Cristnogol yn Lloegr yw fod archwilwyr yn aml yn anwybodus neu'n rhagfarnol i gredoau ac ymarferion Cristnogol.

Nid ydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru apwyntio rheolydd gwladol dros grefydd. Byddai cael archwilydd yn arsylwi ar ddosbarth ysgol Sul, astudiaeth feiblaidd neu benwythnos i ffwrdd gyda'r eglwys yn ymwthiol dros ben. Mae'r syniad o gwestiynu arweinwyr gwirfoddol, a phlant (heb eu rhieni) yn ymosodiad anwarantiedig ar grefydd breifat a bywyd teuluol.

Mae Cristnogion yn ddinasyddion sy'n heddychlon a deddfgarol, rhai sy'n parchu awdurdod a charu eu cymydog. Maent yn barod iawn i wirfoddoli. Byddai gofyn i boblil gofrestru a chael eu harchwilio er mwyn cadarnhau nad ydynt wedi ymrwymo i "addysg annymunol" yn gamgymeriad dwys.

Tra fod Cristnogion yn llwyr gefnogi mesurau i ddiogelu plant, bydd y cynigion hyn yn arwain at golled mewn rhyddid dinesig ac yn creu biwrocratiaeth eang fydd yn gwyro adnoddau i ffwrdd o fesurau diogelu a gwrtheithafol effeithiol. Bydd y rhai sydd mewn gwirionedd yn rhoi plant mewn perygl yn anwybyddu neu osgoi'r gofynion i gofrestru. Annogwn Lywodraeth Cymru i atal y cynlluniau a chanolbwyntio ar ffyrdd i ddefnyddio'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd yn fwy effeithlon.

**Galwn ar Gristnogion, eglwysi a safydliadau yng Nghymru i gysylltu a'u AC i'w hannog i wrthwynebu'r cynlluniau hyn.**

CARE | Christian Concern | Evangelical Alliance | Mudiad Efengylaidd Cymru | Lawyers' Christian Fellowship | The Christian Institute